

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - Nos Fawrth, 19eg o Ebrill 2016**

**Presennol:** Cyng. Einir Thomas (Cadeirydd)  
Cyng. Gwilym O. Jones (Cynghorydd Sir)  
Cyng. Gordon Owen  
Cyng. Cyng. Beryl Salisbury  
Cyng. Dyfed Williams

**Ymddiheuriadau:** Cyng. Gwynfor Lloyd Jones

**2. Datganiad o ddiddordeb – dim**

**3. Cofnodion cyfarfod - 15 Mawrth 2016 -** Derbyniwyd fod y cofnodion yn gywir (Cynnig Cyng. Gwilym O. Jones, eilio Cyng. Beryl Salisbury.)

**4. Materion yn codi o'r cofnodion**

1. Gwaith ar Camp Fali - Mynychodd Cyng. Beryl Salisbury, Cyng. Gwilym O. Jones a'r Cyng. Richard Dew y cyfarfod yn RAF Fali ar 17 Mawrth 2016 fel a gytunwyd. Fe ddywedwyd wrth swyddogion y Llu Awyr, swyddogion y Cyngor Sir a'r contractwyr bod y Cyngor Cymuned a'r trigolion lleol yn hynod o anhapus gyda'r diffyg ymgynghori. O ganlyniad, cytunwyd y byddai swyddogion y Llu Awyr yn trefnu digwyddiad ymgynghori yn Neuadd Bentref Caergeiliog rhwng 5 ac 8y.h. ar ddydd Mercher 20 Ebrill, 2016 fel y gallent ddelio â phryderon y cyhoedd. Fodd bynnag, mynegodd rhai aelodau bryder na fu llawer o gyhoeddusrwydd amdano.
2. Llochesi fws - (Cyffordd yr A55) Cytunwyd i dderbyn y dyfynbris am £125 + taw oddi wrth William Evans & Sons ar gyfer atgyweirio y lloches. Gofynnwyd i'r clerc gael golwg ar delerau'r polisi yswiriant i weld a oedd posib gwneud cais.
3. Cae Chwarae - Cafwyd addewid gan Craig Redmond y byddai yn gwneud rhagor o waith ar y ffin.
4. Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn Ynys Môn - Bydd y Cyngor Sir yn chwilio am fwy o safleoedd gan fod y broses ymgynghori wedi codi amheuan ynghylch addasrwydd y rhai a gynnigwyd.
5. Unrhyw fater arall yn codi o'r cofnodion - dim

**5. Deddf Gynllunio Gwlad a Thref - dim**

**6 . Gohebiaeth Cyngor Sir Ynys Môn - fe nodwyd y canlynol:**

1. Blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith

**CYNGOR CYMUNED  
LLANFAIR YN NEUBWLL  
COMMUNITY COUNCIL**

---

2. Grant i Fudiadau Gwirfoddol 2016
3. Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned - Cofnodion y cyfarfod dyddiedig 19 Tachwedd 2015 a hysbysiad bod agenda ar gyfer y cyfarfod 28.4.2016 i ddod.
4. Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd - Llythyr i ddweud fod Arolygwyr Annibynnol wedi eu penodi i gynnal asesiad o gadernid cyffredinol y cynllun.
5. Ynys Môn i gynnal Gemau'r Ynysoedd 2025 - nodwyd
6. Fframwaith Moesegol Llywodraeth Leol - Cyhoeddwyd Cod Ymddygiad newydd a ddylai gael ei fabwysiadu erbyn 1 Gorffennaf 2016. Roedd hwn i gael ei baratoi erbyn y cyfarfod nesaf.

## 7. Materion Ariannol

**Yn y banc ar 19.4.2016 Cyfrif Cyfredol £6826.51, Cyfrif Cadw £3918.60**

### Taliadau i'w gwneud

Cyflog y clerc (Mawrth)	£176.35	HMRC (TWE)	£44.09
GMS (Archeb 03260)	£36	Cyfieithydd	£60.00
Archwilydd Mewnol	£65	Les Cae Chwarae	£137.00

**Cytunwyd i dalu'r rhain (Cynnig Cyng. Gwilym O. Jones, eilio Cyng. Gordon Owen)**

8. **Cyfrifon 2015/2016** - Cadarnhawyd fod y cyfrifon yn barod i'w harchwilio, cytunwyd i benodi Mr John Roberts i gynnal archwiliad mewnol arnynt.

## 9. Rhoddion

Cytunwyd i anfod addewid o £ 1,000 at Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2017.

## 10. Gohebiaeth Eraill

1. Trosglwyddo Aseadau Cymunedol yng Nghymru – Canllawiau arferion gorau.
3. Cyfarfod Un Llais Cymru - nodwyd
4. Hyfforddiant Cynllunio 26.04.2016 - nodwyd
5. Gwasanaeth Nyrsio Ardal - ymgynghoriad
6. Rheoliadau Ariannol Newydd - 'Roedd y clerc am baratoi rhain ar gyfer y Cyfarfod Blyneddol yn mis Mai.

## 10 . Unrhyw fater arall

Hysbysodd Cyng. Dyfed Williams y cyfarfod bod ffens weiren bigog yn hongian yn rhydd ar ochr y lon wrth hen adeilad Menai Handy Foods ar Camp Fali. Gofynnwyd i'r clerc roi gwybod i'r Adran Briffyrdd, CSYM.

## 11. Cyfarfod nesaf 17eg o Fai 2016.